# Ysgol Henry Richard

## Swydd Disgrifiad

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | **Cydlynydd HAFAN** |
| **Diben y Swydd:** | Cyfannu gwaith proffesiynol athrawon drwy fynd yn gyfrifol am weithgareddau dysgu cytunedig o fewn system gytunedig o oruchwyliaeth. Gallai hyn olygu cynllunio, paratoi a chyflwyno gweithgareddau ar gyfer unigolion / grwpiau, neu ar gyfer dosbarthiadau cyfan am gyfnod byr-dymor, a monitro disgyblion, ac asesu, cofnodi a chyflwyno adroddiadau ar gyflawniad, cynnydd a datblygiad disgyblion.<br>Bod yn gyfrifol am reoli a datblygu maes arbenigol o fewn yr ysgol a/neu reoli cynorthwywyr addysgu eraill gan gynnwys dosbarthu a monitro gwaith, arfarnu, a hyfforddiant. E.e. Rhedeg darpariaeth HAFAN o ddydd i ddydd |
| **Rheolwr llinell:** | Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| **Math o Gytundeb:** | Llawn Amser |
| **Hyd y cytundeb:** | Parhaol |
| **Graddfa Cyflog:** | Graddfa 8 |
| **Oriau Gwaith:** | 32.5 awr yr wythnos |
| **Lefel Datgeliad:** | Uwch |

**Dyletswyddau a chyfrifoldebau**

**Prif gyfrifoldebau**

- Rhedeg effeithiol yr Hafan o ddydd i ddydd.
- I gysylltu gyda staff allweddol er mwyn sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer y disgyblion fydd yn mynychu'r Hafan.
- I weithio fel mentor gyda disgyblion unigol er mwyn darparu gweithgareddau ymarferol fydd yn datrys unrhyw rwystrau i'w addysgu a thrwy hynny eu cynorthwyo i gyrraedd ei lawn botensial.

**Dyletswyddau**

- Rhedeg darpariaeth HAFAN o ddydd i ddydd.
- Cyfrifoldeb am y cyrsiau sy'n cael ei ddarparu o fewn HAFAN megis ASDAN, sgiliau gwaith: dysgu ac asesu.
- Datblygu a chynnal agweddau positif disgyblion tuag at y rhaglen fentora - e.e. ymddiriedaeth a hyder.
- Adnabod, cymell a dathlu ardaloedd llewyrchus disgyblion unigol e.e. yn breifat, neu yn gyhoeddus, yn ôl y galw.
- Cefnogi a gweithredu polisïau eglur ac ymarfer da tuag at gynlluniau gweithredu ac asesu/cofnodi cynnydd disgyblion.
- Cynnal cofnodion cywir a chyfredol o gyfarfodydd, cynlluniau gweithredu a thystiolaeth o gynnydd disgyblion.
- Adrodd i Reolwr llinell (CADY) ar lwyddiant yr Hafan ac o bosib unrhyw welliannau a hyfforddiant proffesiynol perthnasol.

**Cefnogi Disgyblion:**

- Asesu anghenion disgyblion a defnyddio gwybodaeth fanwl a sgiliau arbenigol i gefnogi dysgu'r disgyblion e.e. asesu anghenion disgyblion wrth cyflawni dogfennaeth prosiect Cynnydd ar gyfer ein dysgwyr mwyaf bregus.
- Sefydlu perthynas waith gynhyrchiol gyda'r disgyblion, gan weithredu fel patrwm ymddygiad a gosod disgwyliadau uchel e.e. datblygu perthynas mentora un wrth un, cynnig cefnogaeth emosiynol ac ymddwyn fel Coets, hyfforddwr, datblygwr a chymhellwr.

- Datblygu CDU a'u rhoi ar waith e.e. cynorthwyo i greu cynllun gweithredu ar gyfer disgyblion, gosod targedau a gweithredoedd rheolaidd a monitro'r datblygiadau - a thrwy hynny gwerthuso'r cynnydd tuag at agweddau positif at ddysgu.
- Gweithio gyda disgyblion unigol, adnabod y rhwystrau i ddysgu a monitro cynnydd tuag at y targedau.
- Hyrwyddo cynhwysiant a derbyniad i'r holl ddisgyblion o fewn yr ystafell ddosbarth e.e. gweithio gyda disgyblion, un wrth un, er mwyn ei annog i facsimeiddio ei botensial trwy amrywiaeth o strategaethau a rhaglenni cefnogi e.e. defnyddio strategaethau fydd yn :
    - datblygu sgiliau trefniadol a chof
    - datblygu gweithio annibynnol a chydweithiol
    - adnabod dulliau dysgu gwahanol
    - gwella ymddygiad disgyblion
- Rhoi cefnogaeth gyson i'r disgyblion gan gydnabod ar yr un pryd eu hanghenion unigol, ac ymateb iddynt e.e. Cysylltu gyda staff dysgu er mwyn monitro pwysau gwaith disgyblion, cyflymder gwaith a mynediad at addysgu.
- Annog disgyblion i ryngweithio ac i weithio ar y cyd gydag eraill, a chynnwys yr holl ddisgyblion yn y gweithgareddau e.e. datblygu a chynnal agweddau positif disgyblion (disgyblion bregus yn enwedig) tuag at y rhaglen fentora - e.e. ymddiriedaeth a hyder.
- Hyrwyddo annibyniaeth a defnyddio strategaethau i gydnabod a gwobrwyo cyflawniad yn deillio o hunanddibyniaeth e.e. Hysbysu staff yn rheolaidd o ddatblygiadau, gwelliannau mewn cyrhaeddiad a strategaethau llwyddiannus.
- Rhoi adborth i ddisgyblion ynghylch cynnydd a chyflawniad e.e. wrth asesu tasgau sgiliau gwaith ac ASDAN.

**Cefnogi'r athro neu'r athrawes:**

- Trefnu a rheoli amgylchedd dysgu ac adnoddau priodol e.e wrth cynnal darpariaeth HAFAN.
- O fewn system gytunedig o oruchwyliaeth, cynllunio amcanion heriol i'r addysgu a'r dysgu, er mwyn gwerthuso a diwygio gwersi/cynlluniau gwaith fel y bo'n briodol, e.e. addysgu cyrsiau Sgiliau Gwaith, ASDAN ac Agored Cymru.
- Monitro a gwerthuso ymateb disgyblion i weithgareddau dysgu drwy amrediad o strategaethau asesu a monitro ar sail amcanion dysgu gosodedig
- Rhoi adborth gwrthrychol a chywir yn ôl y gofyn, ynghyd ag adroddiadau, ynghylch cyflawniad, cynnydd a materion eraill yn ymwneud â'r disgyblion, gan sicrhau argaeledd y dystiolaeth briodol e.e. adroddiadau llythrennedd emosiynol.
- Cadw cofnod systematig o gynnydd a chyflawniad mewn gwersi/gweithgareddau a darparu tystiolaeth o rychwant a lefel cynnydd a chyrhaeddiad e.e. taflenni tracio ac asesu BTEC ar gyfer cwrs sgiliau gwaith.
- Gweithio o fewn polisi sefydledig ar ddisgyblaeth er mwyn rhagfynegi a rheoli ymddygiad mewn modd adeiladol, gan hyrwyddo hunanreolaeth ac annibyniaeth e.e. Gweithio gyda'r Uwch Dîm Arwain, CADY, Arweinwyr cynnydd a staff eraill er mwyn adnabod yn gynnar disgyblion a fyddai'n elwa o fewnbwn mentor dysgu hynny yw y sawl sy'n :
    - Tangyflawni ;
    - Mewn peryg o gael ei eithrio;
    - Colli ysgol;
    - Anfodlon ;
    - Profi anawsterau dysgu;

  - Isel ei hunan hyder a'i hunan werth.
- Cefnogi swyddogaeth rhieni mewn perthynas â dysgu'r disgyblion, a chyfrannu at/arwain cyfarfodydd gyda'r rhieni er mwyn darparu adborth adeiladol ar gynnydd/cyflawniad y disgyblion, ac ati e.e. adrodd i rieni yn ddyddiol yn ôl yr angen.
- Gweinyddu ac asesu profion arferol a goruchwylio arholiadau/profion
- Cynhyrchu cynlluniau gwersi, taflenni gwaith, cynlluniau, ac ati e.e. wrth paratoi adnoddau dysgu ac addysgu ar gyfer cyrsiau megis ASDAN a sgiliau gwaith

**Cefnogi'r cwricwlwm**
- Cyflwyno gweithgareddau dysgu i'r disgyblion o fewn system gytunedig o oruchwyliaeth, gan addasu'r gweithgareddau yn ôl ymateb/anghenion y disgyblion
- Cyflwyno strategaethau dysgu lleol a chenedlaethol e.e. llythrennedd, rhifedd, CA3, y blynyddoedd cynnar, a gwneud defnydd effeithiol o gyfleoedd a ddaw o weithgareddau dysgu eraill i gefnogi datblygiad sgiliau'r disgyblion
- Defnyddio TGCh yn effeithiol i gefnogi gweithgareddau dysgu, gan ddatblygu hyfedredd disgyblion a'u hannibyniaeth fel defnyddwyr y dechnoleg
- Dethol a pharatoi adnoddau angenrheidiol ar gyfer arwain gweithgareddau dysgu, gan gymryd i ystyriaeth ddiddordebau, iaith, a chefndir diwylliannol y disgyblion
- Rhoi cyngor ar leoliad a'r defnydd priodol o gymorth/adnoddau/offer arbenigol e.e. gweithio gyda staff i adnabod ystod o strategaethau er mwyn cynorthwyo disgyblion i elwa oddi wrth gefnogaeth mentoriaid.

**Cefnogi'r Ysgol**
- Cydymffurfio a chynorthwyo gyda pholisïau a threfniadaethau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, iechyd, diogelwch a sicrwydd, cyfrinachedd a gwarchod data, a chyflwyno adroddiad ar bob testun pryder i berson priodol
- Bod yn ymwybodol o wahaniaethau a'u cefnogi, a sicrhau bod gan yr holl ddisgyblion fynediad cyfartal i'r cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu e.e. Cydweithio gyda'r CADY i adnabod ystod o strategaethau fydd yn cynorthwyo disgyblion i ddysgu ac yn helpu creu a gweithredu cynlluniau addysg unigol.
- Cyfrannu tuag at ethos/gwaith/amcanion cyffredinol yr ysgol e.e. Herio disgyblion yn barhaus i gadw ffocws a chymhelliad.
- Sefydlu perthynas adeiladol gyda phobl eraill gan gyfathrebu gydag asiantaethau/gweithwyr proffesiynol eraill, mewn cydweithrediad â'r athro neu'r athrawes, er mwyn cefnogi cyflawniad a chynnydd y disgyblion e.e. I gysylltu gyda staff allweddol er mwyn sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer y disgyblion fydd yn mynychu'r Hafan.
- Rhoi arweiniad, fel y bo'n briodol, wrth ddatblygu dulliau aml asiantaeth addas i gefnogi disgyblion e.e. gweithio gydag asiantaethau allanol megis Gyrfa Cymru a gweithwyr ieuenctid i gynorthwyo disgyblion i gael mynediad at ystod eang o gyfleoedd a gwasanaethau tu fewn a thu allan i'r ysgol.
- Cydnabod eich cryfderau a'ch meysydd arbenigol eich hunan a defnyddio'r rhain i gynghori a chefnogi eraill e.e. Adrodd i Reolwr llinell ar lwyddiant yr Hafan ac o bosib unrhyw welliannau a hyfforddiant proffesiynol perthnasol.
- Ymgymryd â gweithgareddau dysgu yn ystod oriau tu allan i'r ysgol o fewn canllawiau a sefydlwyd gan yr ysgol e.e. cyfrannu at raglen estynedig yr ysgol fydd yn cynnig profiadau cyfoethogi o fewn a thu allan i'r ysgol (e.e. Gwobr Dug Caeredin).

- Cyfrannu tuag at ddynodi a chyflawni gweithgareddau dysgu addas yn ystod oriau tu allan i'r ysgol sy'n cyfannu ac ymestyn y gwaith a wnaed yn yr ystafell ddosbarth.

Tra bod pob ymdrech wedi'i wneud i egluro'r prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd, efallai na fydd pob tasg unigol a wnaed yn cael eu nodi.

Bydd yn disgwyl i weithwyr cydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol gan reolwr i ymgymryd â gwaith ar lefel debyg nas pennir yn y disgrifiad swydd.
Mae disgwyl i weithwyr fod yn gwrtais tuag at weithwyr eraill a darparu amgylchedd croesawgar i ymwelwyr a phobl sy'n galw dros y ffôn.
Bydd yr ysgol yn ymdrechu i wneud unrhyw addasiadau rhesymol i'r swydd a'r amgylchedd gwaith i alluogi mynediad i gyfleoedd cyflogaeth i ymgeiswyr anabl.

Mae'r disgrifiad swydd yma yn gyfredol ar hyn o bryd ar y dyddiad a ddangosir, ond drwy ymgynghori â chi, fe ellir ei newid gan y Pennaeth neu, yn ystod trafodaethau adolygiadau rheoli Perfformiad, gan eich Rheolwr cyswllt i adlewyrchu neu i ragweld newidiadau yn y swydd sy'n gymesur â graddfa a theitl y swydd. Bydd angen trafod y swydd disgrifiad yn flynyddol a'i llofnodi.

| | |
|---|---|
| **Atebolrwydd** | Yn atebol i'r CADY, Uwch Dîm Arwain a'r Corff Llywodraethol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnod** | | **Dyddiad** | |

## Manyleb Person

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Y cymwysterau academaidd/proffesiynol/ technegol/galwedigaethol (gan gynnwys Lefel y cymwysterau) sy'n ofynnol ar gyfer y swydd** | • Sgiliau rhifedd/llythrennedd da<br>• CGC 3 (Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol – NVQ) Cynorthwywyr Addysgu neu gymhwyster neu brofiad cyfwerth ac uwch<br>• Hyfforddiant yn y strategaethau perthnasol e.e. llythrennedd a/neu mewn maes neilltuol o'r cwricwlwm neu ddysgu e.e. dwyieithrwydd, iaith arwyddion, dyslecsia, TGCh, Mathemateg, Saesneg, CACHE, ac ati.<br>• Hyfforddiant cymorth cyntaf priodol<br>• Cofrestru gyda Cyngor Gweithlu Addysg | | | |
| **Lefel y sgiliau ieithyddol sy'n ofynnol ar gyfer y swydd (Gweler y canllawiau iaith a'r ceri \| net )** | Gweler y tabl isod.<br>**Nodyn: **<u>Bydd gofyn</u>** i'r ymgeisydd llwyddiannus ddysgu'r Gymraeg o fewn 2 flynedd o gael ei benodi os nad ydyw eisoes yn siarad Cymraeg.* | | | |
| | **Gwrando/ Siarad** | **Darllen** | **Ysgrifennu** | |
| **Cymraeg (Lefelau Fframwaith ALTE)** | 5 | 5 | 5 | **Hanfodol*** |
| **Saesneg (Lefelau Fframwaith ALTE)** | 5 | 5 | 5 | **Hanfodol** |
| **Sgiliau ymarferol/personol sy'n ofynnol ar gyfer y swydd** | • Mae'r gallu i gyfathrebu a chefnogi trwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd yma.<br>• Yn frwdfrydig dros addysg disgyblion ac yn cyfrannu'n llawn i fywyd a gwaith yr ysgol.<br>• Yn onest ac yn ddibynadwy, ac yn parchu cyfrinachedd.<br>• Yn hyderus a brwdfrydig.<br>• Yn meddu ar fedrau rhyngbersonol da.<br>• Yn gallu cyd-weithio mewn tîm.<br>• Dealltwriaeth gynhwysfawr o faterion cyfrinachedd o fewn amgylchedd ysgol<br>• Ymrwymiad i ethos, gwerthoedd ac amcanion Ysgol Henry Richard<br>• Ymrwymiad i les pob disgybl | | | |
| **Profiad sy'n ofynnol ar gyfer y swydd** | • Profiad o weithio gyda disgyblion a'u cefnogi mewn amgylchedd addysgol<br>• Mentora a chefnogaeth i ddisgyblion, yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad academaidd<br>• Profiad o gefnogi disgyblion yn effeithiol<br>• Profiad o weithio gydag asiantaethau allanol. | | | |

| | |
|---|---|
| **Gwybodaeth a Sgiliau** | • Y gallu i ddefnyddio TGCh yn effeithiol i gefnogi'r dysgu<br>• Gwybodaeth drylwyr o bolisïau/codau ymarfer perthnasol, ac ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth berthnasol.<br>• Gwybodaeth ddigonol o'r cwricwlwm cenedlaethol/cyfnod sylfaen a rhaglenni/strategaethau dysgu perthnasol eraill.<br>• Dealltwriaeth o egwyddorion datblygiad a phrosesau dysgu'r plentyn.<br>• Y gallu i hunanwerthuso anghenion dysgu ac ymdrechu i chwilio am gyfleoedd dysgu.<br>• Y gallu i ddod ymlaen yn dda gyda phlant ac oedolion<br>• Gweithio'n adeiladol a hyblyg yn rhan o dîm, deall cyfrifoldebau a swyddogaethau'r ystafell ddosbarth a'ch safle bersonol o fewn y swyddogaethau hynny. |
| **Hyfforddiant/addysg y mae'n ofynnol eu cyflawni/mynd ati i'w cyflawni ar gyfer y swydd** | • Cymryd rhan yn rhaglen dysgu proffesiynol yr ysgol.<br>• Ymrwymo'n llawn i gylch rheoli perfformiad er mwyn gosod targedau datblygu'n broffesiynol. |